

# Ynys Môn

THE ISLE OF  
Anglesey

Cwrdd â'r Heriau:

Ein Cynigion

Cychwynnol ar gyfer

Cyllideb 2018/19

Dogfen ymgynghori



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

[www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk)

[www.anglesey.gov.uk](http://www.anglesey.gov.uk)

 [cyngormon](https://www.facebook.com/cyngormon)  
[ioacc](https://www.facebook.com/angleseycounty)

 [@cyngormon](https://twitter.com/cyngormon)  
[@angleseycouncil](https://twitter.com/angleseycouncil)

## Cwrdd â'r Heriau: Ein Cynigion Cychwynol ar gyfer Cyllideb 2018/19

Mae Cyngor Sir Ynys Môn unwaith eto, eleni, yn ymdrechu i gydbwysu cyllideb heriol dros ben.


Mae'r Awdurdod yn wynebu bwlch cyllidol o oddeutu £2m yn ystod 2018/19 gyda gostyniadau pellach yn yr arian rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn debygol dros y blynyddoedd nesaf.

Bu i'r setliad cyllidol dros dro gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 arwain at gwymp cyffredinol mewn arian ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, fodd bynnag, yn wynebu nifer o ofynion ychwanegol – gan gynnwys cyfrifoldebau newydd, cwrdd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, chwyddiant cyflogau a chwyddiant prisiau cyffredinol (fel y dangosir yng ngholofn chwith y darlun ar dudalen 3).

Ni fydd yr arian yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a'r incwm ychwanegol ddaw wrth godi Treth y Cyngor (fel y dangosir yng ngholofn chwith y darlun ar dudalen 3) yn ddigon i gwrdd â'r gofynion ychwanegol a'r costau cysylltiedig. O ganlyniad, fe fydd rhaid i ni ddarganfod arbedion o £2m.

Unwaith eto eleni, ein prif nod yw sicrhau Cyllideb ddoeth fydd yn galluogi i ni amddiffyn gwasanaethau rhag toriadau llymach yn ystod 2019/20 a 2020/21 pan fydd yr arian ddaw o Fae Caerdydd yn debygol o fod yn llawer llai.



Felly, mae nifer o arbedion effeithlonrwydd wedi eu datblygu gan swyddogion ac aelodau etholedig er mwyn goresgyn y bwch cyllidol.

Mae'r cynigion effeithlonrwydd sydd wedi'u hadnabod gwerth bron i £3m a chawsant eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor yn ystod ei gyfarfod ar Ddydd Llun, Tachwedd 6ed.

Mae'r ddogfen ymgynghori yma'n amlinellu ein cynigion cyllidebol cychwynol fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus eang. Mae'n hynod bwysig bod pobl Môn yn dweud eu dweud yn ystod yr ymgynghoriad ar y Gyllideb, cyfnod o saith wythnos (7 Tachwedd - 29 Rhagfyr).

Mae'r arbedion effeithlonrwydd a'r cynigion cynyddu incwm arfaethedig wedi eu cynnwys yn y ddogfen yma (gweler tudalennau 8-12) a byddwn yn gwerthfawrogi eich barn arnynt fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Gyllideb.

Mae'r arbedion yn seiliedig ar y categorïau canlynol:

- Rhoi'r gorau i neu Trosglwyddo Gwasanaethau
- Trawsnewid Gwasanaeth neu newid y ddarpariaeth
- Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol
- Codi mwy am rai o'r gwasanaethau rydym yn ei ddarparu
- Lleihau a rhesymoli niferoedd o staff
- Gostyngiad yng nghostau ysgolion

Cewch ddarllen yr adroddiad Cyllideb Refeniw Ddrafft 2018/19 lawn aeth gerbron y Pwyllgor Gwaith [yma](#) neu wylïo gwe-ddarllediad y cyfarfod [yma](#).

Mae'r arbedion arfaethedig a'r cynigion i gynyddu incwm yn rhan o'n hymgyrch i sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol yn unol â [Chynllun y Cyngor 2017-22](#).

## Treth Cyngor

Mae Treth y Cyngor yn darparu ychydig dros 25% o incwm y Cyngor. Mae ein Cynllun Ariannol Tymor Canol ar gyfer 2018/19 yn seiliedig ar gynnydd arfaethedig o 4% yn y Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor o 4% yn dal i olygu bod y Cyngor Sir yn wynebu bwloch ariannol o bron i £2m.

Mae nifer o'n gwasanaethau ni'n wynebu galw cynyddol tra bod adnoddau yn llai – gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gofalu am y mwya' bregus yn ein cymdeithas, yn esiampl amlwg. Er yn parhau i drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaeth – mae'n parhau i wynebu pwysau a gofynion cynyddol.

Fel rhan o'r broses ymgynghori ar Gyllideb 2018/19, rydym felly yn cynnig cynnydd ychwanegol o 1% yn y Dreth (cyfanswm cynnydd o 5%), gan neilltuo'r arian yma i gyllido'r pwysau cynyddol sydd ar Wasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl yma'n adnabod gwahanol gynnydd mewn treth cyngor, yr incwm y byddent yn ei greu, lefelau'r arbedion y byddai angen eu gwneud ar wahanol ganrannau o gynnydd, a'r effaith wythnosol ar eiddo Band D.

<b>Effaith Lefelau Amrywiol o Gynnydd yn y Dreth y Cyngor ar y Diffyg Cyllido</b>				
<b>% y Cynnydd</b>	<b>Y Dreth Gyngor</b>	<b>Diffyg Cyllido</b>	<b>Effaith Wythnosol ar Band D</b>	<b>Cyfanswm Cynnydd Band D</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>	<b>£</b>
1.0	34,066,000	3,010,000	0.21	10.88
1.5	34,234,000	2,841,000	0.31	16.32
2.0	34,403,000	2,672,000	0.42	21.76
2.5	34,572,000	2,504,000	0.52	27.20
3.0	34,740,000	2,335,000	0.63	32.64
3.5	34,909,000	2,167,000	0.73	38.08
4.0	35,077,000	1,998,000	0.84	43.52
4.5	35,246,000	1,829,000	0.94	48.96
5.0	35,415,000	1,661,000	1.05	54.40

## Pam ydym ni'n ymgynghori â chi?

Rydym yn wynebu bwlch ariannol o oddeutu £2m – ond wedi adnabod bron i £3m o gynigion arbedion effeithlonrwydd.

Er bod £3m ond yn cynrychioli rhan fechan iawn o gyfanswm ein gwariant, mae'n debygol y gall pob cynnig - os ydynt yn cael eu mabwysiadu fel rhan o Gyllideb derfynol y Cyngor ar gyfer 2018/19 - gael effaith ar drigolion a chymunedau'r Ynys.

Eleni, felly, mae gan y Cyngor Sir ychydig o hyblygrwydd yn nhermau pa arbedion effeithlonrwydd sydd rhaid eu derbyn neu beidio.

Bydd cynnydd arfaethedig o rhwng 4-5% yn y Dreth Gyngor hefyd, wrth gwrs, yn cael effaith uniongyrchol ar drigolion, cymdeithasau lleol a'r gymuned ehangach.

Rydym felly yn awyddus derbyn eich sylwadau ar y gwahanol gynigion yma, pa rai ddylid eu mabwysiadu neu wrthod, a sut y gellir lleihau unrhyw effaith posib fyddai'n dod yn eu sgil. Hefyd, hoffwn eich barn ar gynyddu'r Dreth Gyngor ac unrhyw syniadau gennych i helpu'r awdurdod wneud arbedion pellach neu i greu incwm ychwanegol.

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad eang yma'n ffurfio rhan o'r cynigion cyllideb terfynol a fydd, wedi adolgyiad gan gynghorwyr sir, yn mynd gerbron y Cyngor Llawn am benderfyniad terfynol ar y Gyllideb ym mis Chwefror 2018.

Caiff crynodeb o ymatebion trigolion Ynys Môn hefyd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir.

Cewch ymateb i'r ymgynghoriad yma drwy:

Gwblhau'r arolygon ar ein gwefan [www.ynysmon.gov.uk/ymgyngoriadcyllideb](http://www.ynysmon.gov.uk/ymgyngoriadcyllideb) wedi i chi ddarllen drwy'r cynigion yn y ddogfen yma.

Neu gallwch anfon eich sylwadau i [ymgyngoricyllideb@ynysmon.gov.uk](mailto:ymgyngoricyllideb@ynysmon.gov.uk)

Neu ysgrifennwch atom: Cwrdd â'r Heriau: Ymgynghoriad ar Gyllideb 2018-19, Swyddfa'r Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW

Daw'r ymgynghoriad i ben ar Ddydd Gwener, Rhagfyr 29<sup>ain</sup> 2017.

Ceir manylion am y cynigion arbedion effeithlonrwydd a'r cynigion creu incwm yn y tablau sydd yn dilyn.

- Rhoi'r Gorau i neu drosglwyddo Gwasanaethau**

Arbediad a Gynigir	Gwasanaeth	Arbediad tebygol £'000
Yn dilyn agor cynllun gofal ychwanegol Hafan Cefni, cau cartref preswyl Plas Penlan	Oedolion	190
Cynyddu taliadau uniongyrchol i roi mwy o ddewis i deuluoedd i drefnu eu gofal dyddiol	Oedolion	30
Allanoli caffi canolfan hamdden Caergybi	Rheoleiddio ac Economic	5
Rhoi'r gorau i fynychu Sioe Môn o 2018 ymlaen	Trawsnewid	6
Trosglwyddo toiledau cyhoeddus i eraill eu rhedeg	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	30
Lleihau costau trafnidiaeth gyhoeddus drwy ddod a'r teithiau bysus canlynol i ben - <ul style="list-style-type: none"> <li>a. 07:13 Amlwch i Langefni (dyddiol)</li> <li>b. 12.34 o Llannerch-y-medd i Fangor (pnawn Sadwrn)</li> <li>c. 14.18 o Fangor i Carmel (pnawn Sadwrn)</li> <li>d. 15.32 o Carmel i Fangor (pnawn Sadwrn)</li> <li>e. 16.40 o Fangor i Rhos-y-bol (pnawn Sadwrn)</li> </ul>	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	15
		<b>£276,000</b>



- **Trawsnewid Gwasanaeth neu newid y ddarpariaeth**

Arbediad a Gynigir	Gwasanaeth	Arbediad tebygol £'000
Sicrhau bod mwy o gleientiaid yn medru aros yn eu cartrefi neu yn cael eu lleoli mewn tai gofal ychwanegol ac o ganlyniad lleihau'r ddibyniaeth ar gartrefi preswyl	Oedolion	92
Cyflogi plymar mewnol i leihau costau isgontractwyr	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	20
Lleihau'r gyllideb ar gyfer costau cynnal a chadw goleuo stryd yn dilyn y buddsoddiad mewn goleuadau LED	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	20
Cwblhau'r broses o drawsnewid y gwasanaeth Llyfrgelloedd yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar. Bydd lefel yr arbediad yn dibynnu ar benderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2017	Dysgu	I'w gadarnhau – 50 o bosib
Gwella rheolaeth a defnydd effeithlon o swyddogion traethau / cynorthwyr llithrfa dymhorol	Rheoleiddio ac Economic	20
Rheoli gofyn am wasanaeth gofal cartref gan hybu mwy o gefnogaeth cymunedau a rhwydweithiau personol fydd yn helpu pobl i barhau yn annibynnol	Oedolion	38
Cydweithio gyda'r darparwyr cerdd bresennol i ddarparu gwersi mewn ffordd sy'n lleihau'r costau rheoli. Ni fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth i'r plant	Dysgu	86
		<b>£326,000</b>



- **Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol**

<b>Arbediad a Gynigir</b>	<b>Gwasanaeth</b>	<b>Arbediad tebygol £'000</b>
Toriadau pellach i'r grantiau diwylliant i fudiadau megis Ucheldre, papurau bro a Chwmni'r Fran Wen	Dysgu	20
Ail-dendro'r contract torri glaswellt mewn ysgolion yn lotiau llai er mwyn sicrhau prisiau is erbyn Ebrill 2018.	Dysgu	50
Lleihau costau'r deunyddiau glanhau ar draws y Cyngor	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	25
Cynyddu'r defnydd o gerbydau electric / LPG a llogi dyddiol ymysg ein staff i wireddu arbediad blynyddol	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	40
Adolygu'r swm mae'r Cyngor yn gorfod ei warchod i bwrpas ad-dalu benthyciadau i'r dyfodol	Adnoddau	1,000
		<b>£1,135,000</b>

- Codi mwy am rai o'r gwasanaethau rydym yn ei ddarparu

Incwm a Gynigir	Gwasanaeth	Incwm tebygol £'000
Cynyddu'r incwm am waith mae'r gwasanaeth Tai yn ei wneud ar gyfer y cyfrif refeniw Tai / cymdeithasau Tai	Tai	23
Cynyddu incwm i'r Oriel drwy roi mwy o bwyslais ar ei farchnata	Dysgu	15
Cynyddu'r ffioedd bws o 10% (£12) ar gyfer tocynnau bws a'r cynllun seddi gwag i'r plant hynny sydd o fewn 3 milltir i Ysgol Uwchradd a 2 filltir i'r ysgol gynradd	Dysgu	10
Cynyddu rhai ffioedd parcio ar draws yr Ynys o 3% ond cadw'r ffioedd 50c am hanner awr a £1 am awr	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	5
Cynyddu elw'r mân-ddaliadau drwy adnewyddu cytundebau i fod yn fwy cyfredol i'r mân-ddaliadau hynny fydd gyda thenantiaid newydd	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	25
Cynyddu incwm a ddaw o'n stadau diwydiannol drwy adnewyddu cytundebau / prydlesau	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	35
Cynyddu'r incwm a gynhyrchir gan warchod y cyhoedd o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd	Rheoleiddio ac Economic	8
Creu incwm drwy alluogi busnesau lleol / rhanbarthol i hysbysebu ar wefan y Cyngor	Trawsnewid	6
Cynyddu ffioedd Clwb Gofal Boreol o 75c i £1. Ni fydd y cynnydd hwn yn gysylltiedig â chostau'r clybiau brecwast.	Dysgu	15
		<b>£142,000</b>

- **Lleihau a rhesymoli niferoedd o staff**

Arbediad a Gynigir	Gwasanaeth	Arbediad tebygol £'000
Cyfuno swyddi yn y gwahanol adrannau i greu un swydd	Dysgu	25
Lleihau swyddi yn yr adran Priffyrdd wrth i bobl ymadael	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	120
Rhesymoli capasiti o fewn y gwasanaeth – Cynllunio / Uned Polisi ar y Cyd / Gwarchod y Cyhoedd / Datblygu Economaidd	Rheoleiddio ac Economic	92
Lleihau'r nifer o swyddi o fewn y gwasanaeth Eiddo	Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo	35
Lleihau costau staffio canolog yn yr adran Dysgu	Dysgu	30
Dileu swydd atal twyll a swydd wag o fewn y gwasanaethau Adnoddau a Trawsnewid	Corfforaethol	45
		<b>£347,000</b>

- **Gostyngiad yng nghostau ysgolion**

Arbediad a Gynigir	Gwasanaeth	Arbediad tebygol £'000
Cynnal cyllidebau'r ysgolion ar yr un lefel a 2017/18 drwy ofyn i ysgolion gyllido cost dyfarniadau cyflog a chwyddiant o'u cyllidebau presennol	Dysgu	563
Datganoli mwy o gyllidebau cynnal a chadw i'r ysgolion gan roi'r hawl iddynt reoli gwaith trwsio.	Dysgu	100
		<b>£663,000</b>

<b>CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEDIG</b>	<b>£2,889,000</b>
--------------------------------------	-------------------